Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gofal Plant Cwtch Childcare Pentrebaen

**Ysgol Gynradd Coed y Gof**
**Beechley Drive**
**Caerdydd**

**CF5 3SG**

**Dyddiad yr arolygiad:  Hydref 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cwtch Pentrebaen

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Gofal Plant Cwtch Childcare Pentrebaen |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Ryan Williams |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Deborah Ivins |
| Nifer y lleoedd | 33 |
| Amrediad oedran y plant | 2 - 11 |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 16 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 08.00 hyd 18.00 Llun i Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg, ac yn bwriadu bod yn wasanaeth dwyieithog neu'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dyma'r arolygiad cyntaf |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 18/10/2022 |
| Mae'r lleoliad hwn yn un lled newydd, ac wedi symud i'r safle presennol o'i safle blaenorol ger Ysgol Gyfun Plasmawr. Er Medi 2020, mae wedi dechrau darparu gofal ehangach na darpariaeth cylch meithrin un sesiwn ac mae bellach yn darparu gofal trwy'r dydd ac ar ôl amser ysgol i blant rhwng 2 ac 11 oed. Ychydig iawn o'r plant sy'n siarad Cymraeg gartref, â Saesneg fel iaith ychwanegol iddynt, neu ag anghenion dysgu ychwanegol. | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Gwella medrusrwydd a hyder ymarferwyr i gyfathrebu â'r plant yn y Gymraeg er mwyn gwella eu medrau llafar Cymraeg

A2 Ehangu'r arferion addysgu da sydd eisoes yn bodoli ymhlith yr holl ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn manteisio ar bob cyfle i hwyluso a datblygu medrau plant mewn modd cwbl naturiol wrth iddynt chwarae

A3 Sicrhau bod yr amcanion gwella yn seiliedig ar gynnydd a dysgu'r plant a bod y meini prawf llwyddiant yn glir

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron bob plentyn yn hapus, yn fodlon, ac yn ymdopi'n dda wrth gyrraedd y lleoliad a gadael eu rhieni/gofalwyr. Maent yn hyderus wrth wneud dewisiadau am sut maent yn treulio eu hamser ac maent yn gwybod bod eu dymuniadau'n cael eu parchu gan ymarferwyr. Er enghraifft, mae'r plant yn ymuno wrth y bwrdd i fwyta eu byrbryd yn eu hamser eu hunain yn hytrach nag ar adeg benodol. Mae bron bob plentyn yn symud o gwmpas yr ystod eang o weithgareddau a'r ardaloedd chwarae yn hyderus. Mae hyn yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau ac i gymryd rhan mewn profiadau dysgu a chwarae yn eu hamser eu hunain yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn hyderus wrth rannu syniadau ac ateb cwestiynau syml. Maent yn awyddus i drafod eu profiadau gydag ymarferwyr gan wybod y byddant yn gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol ac mae ganddynt berthynas gadarnhaol â'r ymarferwyr, sy'n rhoi teimlad o sicrwydd iddynt. Maent yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, sy'n eu gwneud yn awyddus i rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi eu hymdrechion yn frwdfrydig a balch wrth iddynt ddangos eu gwaith creadigol iddynt.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant wedi cychwyn gwneud ffrindiau yn gyflym. Maent yn rhyngweithio'n dda â'u cyfoedion ac yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau gyda'i gilydd. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n llwyddiannus wrth ddychmygu coginio cinio i'r ymarferwyr yn y gegin fwd, gan drafod pa berlysiau i'w hychwanegu a chymryd tro i ddefnyddio'r offer. Mae'r rhan fwyaf yn hapus i rannu adnoddau gyda'u cyfoedion ac yn dysgu medrau cymdeithasol pwysig yn dda. Er enghraifft, maent yn cymryd eu tro yn amyneddgar wrth aros i chwarae ar y beiciau, tra bod eraill yn hapus i ddod i ffwrdd fel bod rhywun arall yn cael tro. Mae plant hŷn yn dangos diddordeb brwd yn ymdrechion eu ffrindiau ac yn eu canmol pan fyddant yn llwyddo.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda wrth fynd i'r afael â thasgau ac maent yn mwynhau arbrofi ag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, maent yn chwarae â thoes gan ychwanegu dail a pherlysiau i'r toes a chreu gwead newydd. Mae'r rhan fwyaf yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn mwynhau chwarae a defnyddio eu dychymyg, fel chwarae'n ddychmygol yn yr ardal tu allan wrth greu ffau allan o bren ac esgus cuddio oddi wrth eu gelynion.

Mae bron bob plentyn yn dewis gweithgareddau'n annibynnol a dilyn eu diddordebau yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth iddynt baratoi'r bwrdd ar gyfer byrbryd. Mae nifer yn cynnig helpu drwy dorri ffrwythau a rhoi matiau, llestri a gwydrau allan ar y byrddau. Yn ogystal, mae bron bob plentyn yn awyddus i weithredu'n annibynnol, fel golchi eu dwylo, arllwys eu diod eu hunain a dychwelyd eu platiau ar ôl iddynt orffen.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

## Gofal a datblygiad:

Mae ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth ar sicrhau diogelwch plant ac yn gosod gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod plant yn iach a diogel. Mae bob un ohonynt wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant perthnasol ac yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae bob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatreg, sy'n eu paratoi i roi triniaeth briodol, pe byddai angen. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n briodol, gan sicrhau bod rhiant yn arwyddo'r cofnodion hyn. Maent yn cwblhau ymarferion tân yn rheolaidd a'u cofnodi'n effeithiol.

Gwneir defnydd da o weithdrefnau pwrpasol er mwyn atal lledaenu haint. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd ac yn dilyn gweithdrefnau addas wrth drin bwyd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn annog plant i fwyta ffrwythau ac yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu eu medrau corfforol a threulio amser y tu allan yn yr awyr iach yn ddyddiol.

Mae'r ymarferwyr wedi ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â'r plant ac yn siarad â nhw mewn ffordd annwyl a chariadus. Maent yn trin y plant gyda gofal a pharch ac yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall ar yr adegau prin pan maent yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro ac yn cynnig esboniad iddynt wrth wneud hyn. Mae bron bob ymarferwr yn modelu medrau cymdeithasol da wrth chwarae gyda'r plant.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn arbennig o dda, ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gyffrous er mwyn denu eu diddordeb. Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol i adnabod a chefnogi anghenion unigol plant. Mae ymarferwyr yn casglu gwybodaeth am eu hoffterau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant gychwyn mynychu'r lleoliad. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio'n effeithiol i fynd i'r afael ag anghenion penodol unigolion. Mae gweithdrefnau addas ar waith i gyfeirio plant am gymorth gan asiantaethau allanol, os oes angen.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dysgu ysgogol a diddorol i'r plant ac yn rhoi cyfleoedd defnyddiol iddynt ddatblygu eu chwilfrydedd mewn amgylchedd hynod symbylus a diogel. Maent yn annog y plant i arwain eu dysgu eu hunain yn lled llwyddiannus, gan roi rhyddid iddynt symud o un gweithgaredd i'r llall y tu mewn a thu allan. Mae ymarferwyr, ar y cyfan, yn cydweithio'n dda i gynllunio'r gweithgareddau hyblyg hyn gan ystyried gofynion Cwricwlwm i Gymru. Maent yn cynllunio yn y foment er mwyn adeiladu'n briodol ar wybodaeth a dealltwriaeth flaenorol y plant.

Anogir y plant i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd yn llwyddiannus, er enghraifft trwy eu hannog i drin a bwydo'r pysgod aur a thrafod trychfilod a mwydod yn yr ardd.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn annog y plant i ddysgu a gwneud eu gorau. Er hyn, ychydig sydd wedi meistroli'r grefft o wybod pryd sy'n addas i ymyrryd a cheisio gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sy'n codi i ddatblygu medrau'r plant mewn modd gwbl naturiol. Lle bod hyn yn gweithio orau, mae'r ymarferydd, er enghraifft, yn rhoi saib i'r chwarae ac yn annog y plentyn i gyfri'r cnau castan mae wedi eu casglu mewn powlen yn y gegin fwd.

Yn gyffredinol, mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau rhifedd a medrau chyfathrebu a llythrennedd y plant yn briodol. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth i ddatblygu eu medrau yn y Gymraeg nac mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) wedi datblygu'n llawn. Er mai ychydig o'r ymarferwyr sy'n siaradwyr Cymraeg hyderus, maent yn gwneud ymgais rheolaidd i ddarparu cyfleoedd i blant glywed a defnyddio geirfa ac ymadroddion Cymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys gorchmynion a chyfarwyddiadau syml a chyfarwydd yn ystod amser byrbryd ac amser cylch. Mae ymarferwyr yn hybu ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau diwylliannau Cymru yn effeithiol, er enghraifft trwy ganu caneuon Cymraeg a dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Er hyn, gan mai ychydig iawn o'r plant sy'n siarad Cymraeg yn y cartref ac nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith wedi datblygu'n llawn hyd yn hyn, mae medrau cyfathrebu Cymraeg llawer yn parhau i fod yn sylfaenol iawn.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn briodol. Maent yn creu gweithgareddau hyfryd sy'n eu hannog i ddefnyddio eu chwilfrydedd ac i werthfawrogi rhyfeddodau'r byd mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Er enghraifft, maent yn mwynhau cyfleoedd i astudio natur yn yr ardd a chreu lluniau lliwgar o ddail yr hydref. Mae ymarferwyr yn canolbwyntio ar annog gonestrwydd, tegwch a pharch yn eu holl weithgareddau ac yn sicrhau bod plant yn deall bod angen iddynt drin ei gilydd eu hamgylchedd a'u hadnoddau gyda gofal.

Mae ymarferwyr yn ymgysylltu'n dda â rhieni a gofalwyr i gael persbectif unigol o gryfderau pob unigolyn ynghyd ag unrhyw feysydd sydd angen eu datblygu. Maent yn yn deall eu rolau fel gweithwyr allweddol ar gyfer grwpiau o blant yn dda ac yn cyfrannu'n fuddiol at ddiweddaru proffil bob plentyn yn rheolaidd. Mae ymarferwyr yn arsylwi ac yn asesu plant yn rheolaidd er mwyn cynllunio'r camau naturiol nesaf ar eu cyfer.  Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn dechrau defnyddio'r canfyddiadau hyn yn briodol i gynllunio gweithgareddau a phrofiadau dysgu a chwarae buddiol sy'n diwallu anghenion a diddordebau'r rhan fwyaf o blant. Mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth yn llwyddiannus gyda rhieni/gofalwyr am gynnydd eu plant yn ogystal ag unrhyw feysydd sydd angen eu datblygu. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi hyn.

**Yr amgylchedd:**

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant yn barhaus, ac yn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu'r peryglon posibl a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol i sicrhau nad oes unrhyw beryglon yn bodoli.

Mae'r lleoliad yn ddiogel, yn groesawgar, yn gynnes ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n arbennig o effeithiol. Mae’r ardaloedd chwarae tu fewn a thu allan yn annog chwilfrydedd y plant gyda digon o le iddynt symud o gwmpas yn rhwydd. Mae’r ystafell chwarae wedi ei threfnu i ardaloedd dysgu pwrpasol, gydag amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau i gyfoethogi profiadau’r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ystod eang o adnoddau ac offer go iawn ar gael, fel cwpanau a llestri te, bocsys a photiau bwyd gwag a hen beiriannau ac offer trydanol. Mae hyn yn galluogi’r plant i ddatblygu eu dychymyg ac yn hybu eu dealltwriaeth o’r byd o’u cwmpas. Mae’r ardal chwarae tu allan yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau a chyfleoedd pwrpasol a chyffrous i blant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn gwneud defnydd effeithiol o'r gegin fwd, y cwrs gwrthrychau a’r cafn dŵr a'i bibellau amrywiol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael i’r plant yn yr ystafell chwarae. Mae’r rhain o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi’r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd rhagorol i blant ddysgu am y byd o’u cwmpas. Gwneir defnydd effeithiol iawn o adnoddau a deunyddiau naturiol er mwyn galluogi’r plant i arbrofi a darganfod. Er enghraifft, mae cyfleoedd da ar gael i'r plant blannu coed mwyar, arbrofi â pherlysiau a'u harogli a chwarae â deunyddiau sydd wedi eu hailgylchu yn yr ardal chwarae rôl. Yn ogystal, mae ystod dda o adnoddau ar gael er mwyn hybu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol ac amrywiaeth.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad. Mae hon yn seiliedig ar sicrhau bod y plant yn derbyn gofal o’r ansawdd orau, eu bod yn hapus a’u bod yn gwneud cynnydd da mewn amgylchedd Cymreig. Maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cydweithio mewn amgylchedd hapus. Mae arweinwyr yn parchu’r ymarferwyr, yn gwrando ar eu barn, yn eu cefnogi’n dda ac yn rhoi cyfleoedd cyfoethog iddynt ddatblygu’n broffesiynol. Mae hyn yn eu galluogi i wneud eu gorau dros y plant. Ceir ethos cadarnhaol ac mae'r plant a'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn chwarae rhan greiddiol yng ngweithgareddau’r lleoliad, gan gydweithio’n agos â’r person â gofal. Mae hyn yn sicrhau bod ganddo ddealltwriaeth gadarn o’r hyn sy’n digwydd yno o ddydd i ddydd. Ar y cyd, maent yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant cadarn o ddiogelwch a dysg.

Mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn bodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae’r datganiad o ddiben yn glir ac yn rhoi gwybodaeth ddigonol i rieni/gofalwyr wneud y dewis cywir am ofal eu plant.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau addas i werthuso gwaith y lleoliad sy’n adnabod yn gywir yr hyn sy’n effeithiol ynghyd â’r meysydd sydd angen eu gwella. Mae ganddynt gynlluniau gwella priodol ar gyfer addysgu a’r dysgu ynghyd â’r safle. Maent yn nodi’r camau gweithredu ar gyfer gwella yn glir ond nid yw’r meini prawf llwyddiant bob tro’n ddigon effeithiol i fesur yr effaith ar ddysgu a chynnydd y plant. Mae hyn yn ei gwneud hi’n anodd mesur llwyddiant.

Mae digon o ymarferwyr sydd â chymwysterau a phrofiad perthnasol a phriodol o weithio gyda phlant ifanc ac mae’r rhain yn cael eu trefnu’n briodol. Mae eu rolau a

chyfrifoldebau yn glir, mae cymarebau da o oedolion i blant ac mae cynlluniau wrth gefn addas wedi'u sefydlu rhag ofn y bydd staff yn absennol. Ceir system effeithiol o oruchwylio a gwerthuso ymarferwyr yn flynyddol sy'n arwain at dargedau priodol y cytunwyd arnynt. Er bod arweinwyr yn deall pwysigrwydd datblygu medrau Cymraeg plant, mae dod o hyd i staff sy’n hyderus yn y Gymraeg yn her iddynt. Mae’r lleoliad yn gweithio tuag at gyflwyno Cynnig Gweithredol y Gymraeg ac yn darparu hyfforddiant perthnasol i wella medrau Cymraeg yr ymarferwyr.

Mae gan y lleoliad hanes o weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i wella iechyd, dysgu a lles plant. Mae’r rhain yn cynnwys yr ysgolion cynradd lleol, mudiadau a swyddogion sy’n cefnogi gwaith meithrinfeydd sy’n cynnwys tîm ymgynghorol yr awdurdod lleol, busnesau’r ardal, y Frigâd Dân, y Gwasanaeth Ambiwlans a’r heddwas cymunedol.

Mae'r lleoliad yn rhannu gwybodaeth bwysig gyda rieni am ei bolisïau a gweithdrefnau trwy gynnal cyfarfod wyneb yn wyneb â nhw cyn i'w plentyn ddechrau. Maent hefyd yn eu diweddaru gan ddefnyddio apiau, gwefan a phlatfform cyfryngau cymdeithasol, a thrwy siarad â nhw ar ddechrau a diwedd y sesiwn, yn ôl yr angen.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/12/2022